

**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO)
(CYDGRYNHOI) 2024**

GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 2 202-

GAN FOD Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”), trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol trwy arfer ei bwerau o dan Adrannau (1), 2(1) i (2), 4,124(1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984 i ddiwygio GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024, fel y'i diwygiwyd, (“Y Gorchymyn Cydgrynhoi”), ac effaith hyn fydd:-

1. Dirymu'r Cynllun Gorchymyn a nodir yng Ngholofn 1 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn a mewnosod y Cynllun Gorchymyn diwygiedig a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn ei le.
2. Mae'r Cynllun Gorchymyn a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn o'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ac wedi'u hymgorffori yn “y Cynlluniau” fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn Cydgrynhoi ac sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 1 y Gorchymyn Cydgrynhoi.
3. *Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn Cydgrynhoi wedi ei diwygio fel a ganlyn:-*
 - (i) *drwy ddileu'r geiriad 'L75' a mewnosod y geiriad 'L75 Rev 1' yn ei le, ac o'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym bydd Atodlen 2 i'r Gorchymyn Cydgrynhoi yn cael ei ddarllen a'i ddehongli yn unol â hynny.*
4. I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â darpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn Gorchymyn a wneir neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'i gwneud o dan y Ddeddf ac sy'n bodoli ar yr adeg pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym ac sy'n gosod cyfyngiad ar gerbydau ar hyd ffyrdd ac ochrau ffyrdd a amlinellir ar y Cynlluniau Gorchymyn a nodir yn Atodlen y Gorchymyn hwn y bydd darpariaeth o'r Gorchymyn hwn yn parhau.
5. Bydd y cyfyngiadau, gwaharddiadau a gofynion a orfodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, a heb randdirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofynion a osodir gan unrhyw reoliad a wnaed neu sydd ag effaith fel pe bai wedi'i wneud dan “Ddeddf 1984” neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall.
6. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, ei gymhwyso, ei gydgrynhoi, ei ailddeddfu gan unrhyw ddeddfiad dilynol neu fel pe bai'n cael effaith yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

7. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i'r dehongliad o Ddeddf Seneddol.
8. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 00/00/202 o dan yr enw canlynol:
**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A
PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024
GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 2 202-- .**

Dyddiedig

202-

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN BWRDEISTREF
SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
yma ym mhresenoldeb:-


)
)
)

Llofnodwr Awdurdodedig:

<u>ATODLEN</u>				
<u>Colofn Un</u>			<u>Colofn Dau</u>	
<u>Atodlen y Map</u>	<u>Dyddiad</u>		<u>Atodlen y Map</u>	<u>Dyddiad</u>
1.	L75	29.11.2024	L75 REV 1	**

** mewnosod dyddiad gwneud y Gorchymyn

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English



Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

Ffordd Llyn Halen (Aldi Access Road)

©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2025. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951
©Crown Copyright and database right 2025. Ordnance Survey AC0000851951

Allwedd Cyfyngu / Restriction Key

	Dim Aros Unrhyw Bryd No Waiting At Any Time		Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho Unrhyw Bryd No Waiting At Any Time / No Loading At Any Time		Dim Aros Unrhyw Bryd / Dim Llwytho No Waiting At Any Time / No Loading
	Dim Aros / Dim Llwytho No Waiting / No Loading		Deiliaid Bathodyn Anabledd Yn Unig Disabled Badge Holders Only		Baeau Tacsï Taxi Bays
	Deiliaid Trwydded Yn Unig Permit Holders Only		Cyfyngiad Defnydd Ddeuol Dual Use Restriction		Ysgol Cadw Clir School Keep Clear
	Aros Cyfyngedig Limited Waiting		Cyfyngiad Amrywiol Miscellaneous Restriction		Cyfyngiad Parthol Zonal Restriction

	Dim Aros No Waiting
	Llwytho Yn Unig Loading Only
	Clirffyrdd Clearways
Arall / Other	
	Ffin BCBC BCBC Boundary

DYDDIAD
DATE
TBC

GRADDFA
SCALE
1:1,250

RHIF Y MAP
MAP NUMBER
L75 Rev 1